# Gwariant Rhyngwladol Llywodraeth Cymru

*Briff cyn Dadl yr Wrthblaid ar Gynnig NDM9249*

| | |
|---|---|
| **At** | Aelodau'r Senedd, pob plaid |
| **Oddi wrth** | Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| **Pwnc** | Dadl yr Wrthblaid — Cynnig NDM9249 (gwariant rhyngwladol Llywodraeth Cymru) |
| **Dadl** | Dydd Mercher 17 Mehefin 2026 |
| **Dyddiad** | 15 Mehefin 2026 |

**EIN HARGYMHELLIAD**

Mae Cytûn yn annog Aelodau'r Senedd, o bob plaid, i wrthod Cynnig NDM9249 a'i alwad i ddod â holl wariant rhyngwladol Llywodraeth Cymru i ben.

Cyn Dadl yr Wrthblaid ddydd Mercher, mae Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru yn annog Aelodau'r Senedd, o bob plaid, i wrthod Cynnig NDM9249 a'i alwad i ddod â holl wariant rhyngwladol Llywodraeth Cymru i ben. Mae Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, wedi cyhoeddi'r briffio canlynol.

## Cymru: cenedl fach â gorwel eang

Mae Cymru ers tro wedi deall ei hun fel cenedl fach â gorwel eang. Nid moethusrwydd yw ein hymgysylltiad rhyngwladol; mae'n fynegiant o bwy ydym ni a phwy yr ydym am fod. Mae'n gwneud Cymru yn gyrchfan groesawgar ar gyfer y buddsoddiad mewnol a'r fasnach sy'n cynnal swyddi yn ein cymunedau. Mae'n agor y byd i'n pobl ifanc — drwy Taith, mae dysgwyr o bob rhan o Gymru wedi teithio i fwy na naw deg o wledydd, gan ehangu gorwelion na all unrhyw ystafell ddosbarth ar ei phen ei hun eu cyrraedd. Mae'n cydnabod ein hymrwymiadau i'n cymdogion byd-eang sy'n byw mewn tlodi eithafol drwy raglen Cymru ac Affrica, ac yn cadarnhau ein statws fel Cenedl Masnach Deg gyntaf y byd. Mae'n cadw ffydd â'n galwad fel Cenedl Noddfa i'r rhai sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth. Ac mae'n rhoi grym i ddyletswydd sydd eisoes wedi'i hysgrifennu yng nghyfraith Cymru: y nod o Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Traddodiad hir, nid ffasiwn dros dro

Nid ffasiwn ddiweddar, chwaith, yw'r olwg hon tuag allan. Ganrif yn ôl, yn 1924, yn sgil y Rhyfel Mawr, llofnododd 390,296 o fenywod Cymru — bron traean o fenywod y genedl — ddeiseb heddwch yn apelio at fenywod America i helpu i adeiladu byd a lywodraethid gan gyfraith yn hytrach na rhyfel. Fe'i trefnwyd o dŷ i dŷ, mewn cymunedau a chynulleidfaoedd ar hyd a lled y wlad. Dychwelwyd y gofeb a anfonwyd ganddynt dros yr Iwerydd, mwy na saith milltir o lofnodion, adref i Gymru yn 2023, ac mae bellach yn gorffwys yn y Llyfrgell Genedlaethol. Dilynwyd y fenter hon gan Apêl Heddwch Arweinwyr yr Eglwysi ym 1925. Cedwir y straeon hyn yn fyw heddiw gan bobl Cymru sydd, drwy eglwysi, capeli, undebau llafur ac ymdrech elusennol, wedi deall y

gwaith o geisio heddwch a chyfeillgarwch y tu hwnt i'n ffiniau. Mae Cymru yn cydnabod gwerth cyfeillgarwch, cyfrifoldeb a phartneriaeth, nid eu cost yn unig.

## Mater o ffydd

I'r eglwysi yr ydym yn eu cynrychioli, nid syniad haniaethol yw hyn. Mae ein ffydd yn lleol yn ei gwreiddiau ac yn fyd-eang yn ei theulu; nid yw'r alwad i garu ein cymydog erioed wedi dod i ben wrth ffin, ac mae croesawu'r dieithryn fel cymydog ymhlith y mwyaf eglur o'n rhwymedigaethau Cristnogol. Byddem yn ychwanegu bod y symiau dan sylw yn gymedrol — ffracsiwn o un y cant o gyllideb Cymru — tra bod yr enillion, mewn ffyniant, enw da a chydwybod dda, yn sylweddol.

## Pryder dyfnach: gwleidyddiaeth rhaniad

Ond mae ein pryder yn mynd yn ddyfnach na'r cynnig unigol hwn.

Gofynnwn i'r Aelodau wrthod, hefyd, y math o wleidyddiaeth y mae'n ei gynrychioli. Mae mesur NDM9249 wedi'i lunio fel datganiad absoliwt am ei fod wedi'i gynllunio nid i lywodraethu ond i rannu. Lletem ydyw, wedi'i ffurfio'n fwriadol ac yn sinigaidd i greu llinell rannu ac i osod cymydog yn erbyn cymydog. Mae Cytûn yn edrych gyda phryder gwirioneddol ar y defnydd cynyddol o dactegau o'r fath, ac ar leihau cwestiynau cyhoeddus cymhleth i ddewisiadau ffug naill ai/neu. Mae gwleidyddiaeth sy'n masnachu mewn rhaniad er ei fwyn ei hun yn cyrydu'r bywyd cyffredin sy'n dal cenedl ynghyd.

Mewn cyfnod o her wirioneddol — adeg o bwysau economaidd gartref, ansefydlogrwydd dramor, a newid hinsawdd nad yw'n parchu unrhyw ffin — mae gan bobl Cymru hawl i ddeddfwyr sy'n cymryd eu swydd o ddifrif. Mae hynny'n golygu cynrychioli pob etholwr, gan gynnwys y rhai na wnaethant bleidleisio drostynt; pwyso a mesur safbwyntiau sy'n cystadlu â'i gilydd mewn ewyllys da; a dewis y gwaith amyneddgar o adeiladu yn hytrach na theatr wleidyddol berfformiadol sy'n rhannu. Mae cynigion sy'n bodoli'n bennaf er mwyn creu cweryl yn syrthio ymhell yn brin o'r ddyletswydd honno. Maent yn bychanu'r sefydliad a'r pleidiau sy'n eu hyrwyddo.

## Gwahoddiad i wleidyddiaeth well

Bydd Cytûn, heb ofn na ffafr, yn parhau i sefyll dros Gymru sy'n hyderus, yn hael, ac heb ofni'r byd y tu hwnt i'w glannau. Ar ddechrau'r seithfed Senedd hon, galwn am wleidyddiaeth a gynhelir â gras a thosturi ac â pharch gwirioneddol at bawb — gwerthoedd sy'n adlewyrchu argyhoeddiadau gwirioneddol y ffydd yr ydym yn ei rhannu.

*Rydym yn annog pob Aelod yn gryf i wrthod y cynnig hwn, ac, gan fod gwleidyddiaeth ddeuaidd yr etholiad bellach ar ben, i fodelu yn hytrach y math o fywyd cyhoeddus sy'n ceisio tir cyffredin yn hytrach na rhaniad newydd.*

## Cyswllt

**Iestyn Davies** | Cydlynydd Polisi Cyhoeddus / Public Policy Co-ordinator
Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
iestyn@cytun.cymru